Geiriadur Prifysgol Cymru

A Dictionary of the Welsh Language

Geiriadur Prifysgol Cymru yw'r geiriadur Cymraeg hanesyddol safonol cyntaf. Gellir ei gymharu'n fras o ran ei ddull a'i gwmpas â'r *Oxford English Dictionary*, ond o ran ei fformat y mae hanner ffordd rhwng y geiriadur hwnnw a'r *Shorter Oxford English Dictionary*. Cyflwynir ganddo eirfa'r iaith Gymraeg, yn nhrefn yr wyddor, o weddillion Hen Gymraeg, trwy lenyddiaeth doreithiog y cyfnodau Canol a Modern, hyd at y ffrwydriad eirfa sy'n deillio o'r cynnydd parhaus yn y defnydd a wneir o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd yr oes bresennol. Diffinnir yr eirfa hon yn Gymraeg, ond rhoddir cyfystyron Saesneg yn ogystal. Rhoddir sylw manwl i ffurfiau amrywiol, cyfuniadau, a tharddiad geiriau. Seilir y gwaith ar gasgliad o ymhell dros ddwy filiwn o slipiau, pob un yn dwyn dyfyniad, a grynhowyd ynghyd gan ddarllenwyr gwirfoddol yn ogystal â chan aelodau o staff y Geiriadur, casgliad yr ychwanegir ato o hyd.

Dechreuodd y gwaith golygu yn ystod sesiwn 1948/9, a chyhoeddir y Geiriadur yn rhannau o 64 tudalen yr un. Erbyn 1967 yr oedd Rhannau 1–21 wedi eu cyhoeddi a rhwymwyd hwy i ffurfio Cyfrol I (*a–ffysur*). Rhwng 1968 ac 1987 cyhoeddwyd Rhannau 22–36 (*g–llyys*), a rhwymwyd hwythau'n Gyfrol II yn 1987. Cyhoeddwyd Cyfrol III (*m–rhywyr*), sy'n cynnwys Rhannau 37–50, ar ddiwedd 1998, ac y mae'r amserlen bresennol yn rhag-weld gorffen y gwaith erbyn diwedd y flwyddyn 2001 mewn rhyw 60 o rannau. Y mae drafftiau o erthyglau hyd at ganol y llythyren *Y* eisoes wedi eu paratoi.

Cyfrifoldeb uniongyrchol y Bwrdd Gwybodau Celtaidd yw'r Geiriadur, a leolir mewn swyddfeydd pwrpasol gyda'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn adeilad newydd y Brifysgol gerllaw Llyfrgell Genedlaethol Cymru, lle caniateir mynediad rhydd at y casgliad digyffelyb o lyfrau a llawysgrifau Cymraeg. Y mae wyth aelod ar y staff olygyddol ynghyd â chynorthwyydd rhan-amser. Yr Athro Emeritus R. Geraint Gruffydd, F.B.A., yw'r Golygydd Ymgynghorol. Goruchwylir y gwaith gan Fwrdd Golygyddol o athrawon a chyn-athrawon Cymraeg Prifysgol Cymru, a manteisir ar sylwadau, cywiriadau, a chyfraniadau nifer o ddarllenwyr proflenni gwirfoddol a chyfranwyr allanol.

O ddiwedd Rhan 36, staff y Geiriadur a fu'n gyfrifol am gysodi'r Geiriadur, gan ddefnyddio microgyfrifiaduron a set o raglenni a ddatblygwyd yn arbennig gan y staff. Mae rhai o'r nodweddion a gyflwynwyd fel sgilgynhyrchion y cysodi wedi gwella ansawdd y Geiriadur, wedi hyrwyddo rhai agweddau ar y golygu, ac wedi rhoi llawer mwy o reolaeth i staff y Geiriadur ar bob cam yn y cynhyrchu. Nodweddion y mae'n werth sylwi'n arbennig arnynt yw'r gallu i gymharu pob dyfyniad â'r cofnod cyfatebol mewn llyfryddiaeth gyfrifiadurol, a rhannu testun y Geiriadur i feysydd gwybodaeth rhifedig. Bydd hyn yn fodd i hyrwyddo trosi testun rhydd y Geiriadur i gronfa ddata heb ond ychydig o waith golygu, pan ddaw'n bryd cynhyrchu geiriaduron eraill wedi eu seilio ar yr un data. Y mae cynllun naw mlynedd i fewnosod Rhannau 1–36 i'r gronfa ddata electronig, fel paratoad ar gyfer hyn, wedi ei gwpláu, ac y mae'r gwaith yn cael ei gywiro ar hyn o bryd.

Ar ôl gorffen y gwaith presennol, bwriedir ail-olygu rhannau cynharaf y Geiriadur (*A–B*), gan gynnig fersiwn ar-lein ohonynt ar y We. Gobeithir hefyd gynhyrchu fersiwn cryno o'r Geiriadur ar gyfer y We (ac, yn y pen draw, fersiwn llawn ar CD-ROM), geiriadur sillafu, a mynegai i'r diffiniadau a fydd yn gynsail ar gyfer thesawrws Cymraeg. Parheir i ychwanegu at ein casgliadau trwy gasglu enghreifftiau o eiriau newydd a sicrhau testunau electronig. Ceir llawer mwy o fanylion am y Geiriadur a'i hanes ar safle'r Geiriadur ar y We: www.cymru.ac.uk/geiriadur.

(English overleaf)

Geiriadur Prifysgol Cymru

The University of Wales Dictionary of the Welsh Language

Geiriadur Prifysgol Cymru is the first standard historical dictionary of the Welsh language, broadly comparable in method and scope with *The Oxford English Dictionary*, but midway in format between that dictionary and the *Shorter Oxford English Dictionary*. It presents in alphabetical order the vocabulary of the Welsh language from the remnants of Old Welsh, through the abundant literature of the Medieval and Modern periods, to the explosion of vocabulary arising from the ever-increasing use of the language in all fields of contemporary life. This vocabulary is defined in Welsh, but English equivalents are also given. Detailed attention is given to variant forms, common collocations, and etymology. The work is based upon a collection of well over two million citation slips, amassed by voluntary readers as well as members of the Dictionary staff and still being augmented.

Editorial work commenced during the 1948/9 session, and the Dictionary is being published in 64-page parts. By 1967 Parts 1–21 had been published and they were bound as Volume I (*a–ffysur*). Between 1968 and 1987 Parts 22–36 (*g–llyys*) were published and were bound in 1987 as Volume II. Volume III (*m–rhywyr*), containing Parts 37–50, was published at the end of 1998, and the present timetable envisages completion by the end of the year 2001 in some 60 parts. Drafts of articles up to the middle of the letter *Y* have already been prepared.

The Dictionary is the direct responsibility of the Board of Celtic Studies, and is located in purpose-built accommodation together with the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies in the University's new building alongside the National Library of Wales, where access is freely given to the unparalleled collection of Welsh books and manuscripts. There are eight members on the editorial staff and a part-time assistant. Professor Emeritus R. Geraint Gruffydd, F.B.A., is the Consultant Editor. The work is supervised by an Editorial Board consisting of past and present University of Wales professors of Welsh, and also benefits from comments, corrections, and contributions from a number of volunteer proof-readers and outside contributors.

The Dictionary staff have been responsible for typesetting the Dictionary since the end of Part 36, using microcomputers and a specially developed set of programs written in-house. Some of the features introduced as by-products of the typesetting process have improved the quality of the Dictionary, facilitated certain aspects of the editorial process, and given the Dictionary staff far better control over each stage in its production. Particularly noteworthy features are the ability to compare each citation with the corresponding entry in a computer-readable bibliography, and the division of the Dictionary text into numbered fields of information. This will facilitate the conversion of what is essentially free text into a database with a minimum of editing, when the time comes to produce other dictionaries based upon the same data. A nine-year project for the input of Parts 1–36 into the electronic database, in preparation for this, has been completed, and the work is now being corrected.

Once the present work in completed, it is intended to revise the earliest parts of the Dictionary (*A–B*), with an on-line version provided on the Web. It is also hoped to produce a concise version of the Dictionary for the Web (and, eventually, a full version on CD-ROM), a spelling dictionary, and an index to the definitions that will form the basis of a Welsh thesaurus. We shall continue to augment our collections by gathering examples of new words and usages and by acquiring further electronic texts. Much fuller details about the Dictionary and its history are available on the Dictionary's website: www.wales.ac.uk/dictionary.

Cyhoeddiadau / Publications

Cyfrol/*Volume* I (*a–ffysur*) gol./*ed*. R. J. Thomas, 1967, tt./*pp*. xx+1366, 195×272mm, caled/*hbk*., £55.00, ISBN 0–7083–0504–0.

Cyfrol/*Volume* II (*g–llyys*) gol./*ed*. R. J. Thomas & Gareth A. Bevan, 1987, tt./*pp*. xxxii+925, 195×272mm, caled/*hbk*., £45.00, ISBN 0–7083–0981–X.

Cyfrol/*Volume* III (*m–rhywyr*) gol./*ed*. Gareth A. Bevan & Patrick J. Donovan, 1998, tt./*pp*. xxxvi+859, 195×272mm, caled/*hbk*., £45.00, ISBN 0–7083–1530–5.

Rhannau unigol/*Individual parts* LI–LVII, gol./*ed*. Gareth A. Bevan & P. J. Donovan tt./*pp*. 64, 202×280mm, papur (heb ei dorri)/*pbk*. (*uncut*), £8.00 yr un/ *each*, ISSN 0072-0542:

- **Rhan/*Part* LI** (*s–seisaf*), 1999.
- **Rhan/*Part* LII** (*seisaf–silicat*), 1999.
- **Rhan/*Part* LIII** (*siliceiddiaf–streic*), 2000.
- **Rhan/*Part* LIV** (*streic–Tachmoniad*), 2000.
- **Rhan/*Part* LV** (*Tachmoniad–teithi*[1]), 2000.
- **Rhan/*Part* LVI** (*teithi*[1]*–torth*), 2000.
- **Rhan/*Part* LVII** (*torth–triniaf*[2]), 2001.

Gellir tanysgrifio i'r Geiriadur o'r rhan gyfredol ymlaen am bris gostyngol o £5.33 y rhan.
A subscription to the Dictionary is available from the current part for the reduced price of £5.33 per part.

Gellir archebu Rhannau cynharach yn unigol (ymholiadau i'r Wasg, gw. isod).
Earlier Parts may be ordered individually (enquiries to the Press, see below).

Y mae cloriau caled mewn lliain glas ar gael i rwymo'r cyfrolau am £5 yr un (+ 10% cludiant).
Binding cases in blue Buckram are available to bind the volumes at £5 each (+ 10% p&p).

Cyfeirier archebion at: Gwasg Prifysgol Cymru, 6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd, CF24 4YD ♦ ffôn: +44 (0)29 2023 1919 ♦ ffacs: +44 (0)29 2023 0908 ♦ post-e: archebion@gwasg.cymru.ac.uk ♦ y We: www.cymru.ac.uk/gwasg
Orders should be addressed to: The University of Wales Press, 6 Gwennyth Street, Cathays, Cardiff, CF24 4YD ♦ tel: +44 (0)29 2023 1919 ♦ fax: +44 (0)29 2023 0908 ♦ e-mail: orders@press.wales.ac.uk ♦ Web: www.wales.ac.uk/press
Gellir archebu o'r Wasg ar lein bellach. ***You can now order online from the Press.***

Y mae'r Geiriadur hefyd ar gael o'ch siop lyfrau leol ac o siopau llyfrau ar lein.
The Dictionary is also available from your local bookshop and on-line bookshops.

Gogledd America / *North America*

Gellir archebu'r Geiriadur o'r Wasg, ar lein, gw. www.cymru.ac.uk/geiriadur/gpc_cyho.htm, neu drwy:
The Dictionary can be ordered from the Press, online, see www.wales.ac.uk/dictionary/gpc_publ.htm), or through:

- **Celtic Studies Publications Inc.**, P.O. Box 511, 28 Main Street, Oakville, CT 06779 (ffôn/*tel.*: 860 945 9329, ffacs/*fax*.: 860 945 9468, CelticSP@aol.com, www.celticstudies.com)
- **Books for Scholars**, 7013 Genoa Drive, Chattanooga, TN 37421-5747 (ffôn a ffacs / *tel. & fax*.: 423 855 9633, celtic@booksforscholars.com, www.booksforscholars.com)

Dylid cyfeirio pob ymholiad arall at: Y Golygyddion, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH ♦ ffôn: 01970 627513 ♦ ffacs: 01970 627066 ♦ post-e: geiriadur@cymru.ac.uk ♦ y We: www.cymru.ac.uk/geiriadur
All other enquiries should be directed to: The Editors, Geiriadur Prifysgol Cymru, The National Library of Wales, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH ♦ tel: +44 (0)1970 627513 ♦ fax: +44 (0)1970 627066 ♦ e-mail: geiriadur@wales.ac.uk ♦ Web: www.wales.ac.uk/dictionary

Ceir tudalen enghreifftiol drosodd. *A sample page is shown overleaf.*